# Y FFORWM GWEITHWYR

## 08 Tachwedd 2023

Yn bresennol:

<u>Cynrychiolwyr yr Aelodau:</u>
Cynghorydd D Clements, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd R Owens, Cynghorydd B Price, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams.

<u>Cynrychiolwyr y staff:</u>
J Arkley, G Jones, T Jones, G Lister, H Lloyd, R Lovell, C Price, D Roberts ac E Rooney (Cynrychiolydd Unsain).

<u>Cynrychiolwyr Undeb:</u>
Manuela Hughes (Unsain) a Tracey Sayers (Unsain).

(Yr ystafell werdd, Parc Llanion: 2.00pm – 2.45pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

Nodwyd ei bod yn arferiad gan yr Awdurdod i'r Cadeirydd gael ei ethol o blith cynrychiolwyr yr Aelodau a'r staff bob yn ail. Er bod y Cadeirydd blaenorol wedi bod yn gynrychiolydd Aelodau, gofynnwyd am enwebiadau gan Aelodau'r Awdurdod oherwydd lefel uchel y cynrychiolwyr staff oedd newydd eu penodi.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd R Owens yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod**.**

[Yna cymerodd y Cynghorydd Owens y Gadair.]

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol C Price yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod**.**

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Charlotte Broome, Tom Bean, Ainsley Corp, Kate Gravell, George Higgins Washbrook, Tomos Jones, Johnathan Lewis (UNSAIN), Catriona Price a Bryony Rees.

**4. Cyflwyniadau**

Roedd pawb oedd yn bresennol wedi cyflwyno eu hunain.

**5. Datgan Buddiannau**

Nodwyd bod gan bob Cynrychiolydd Staff fuddiant yn eitem 7a,

Buddiannau'r Staff, fodd bynnag gan nad oedd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud, roedd Swyddog Monitro yr Awdurdod wedi cadarnhau nad oedd angen gwneud datganiadau unigol o fuddiannau. Gwnaed datganiad ar ran pob Cynrychiolydd Staff o ran eitem 7a, Buddiannau'r Staff.

**6. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd R Owens, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022.

**7. Buddiannau'r Staff**

Roedd yr Aelodau wedi gofyn i staff yr Awdurdod am eu barn ar y buddion a gynigir ar hyn o bryd i staff yr Awdurdod. Cyflwynwyd rhestr o'r buddion a gynigir i'r staff ar hyn o bryd at sylw'r Fforwm, ac eglurodd y Prif Weithredwr bod yr Aelodau wedi gofyn am farn y Swyddogion ar y mater er mwyn deall a allai'r Awdurdod gynnig buddion ychwanegol i sicrhau ei fod yn gyflogwr deniadol ac i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hapus.

Manteisiodd cynrychiolydd UNSAIN ar y cyfle i ganmol yr Awdurdod am yr ystod o fuddion a gynigir i'r staff, a gofynnodd a oedd y staff yn cael cymorth o ran materion megis gofal plant, gofal deintyddol a mynediad i gampfeydd (i annog ffyrdd gweithgar o fyw a llesiant y staff). Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y staff yn cael cynnig talebau gofal plant, ond cadarnhaodd y Rheolwr AD ei bod yn ymwybodol o newidiadau a wnaed i'r cynllun hwn oedd yn golygu ei fod yn llai deniadol. Cytunwyd y byddai'r Rheolwr AD yn ailymweld â'r cynllun talebau gofal plant i ddeall yn union beth yw'r newidiadau allai effeithio ar staff yr Awdurdod. Yn dilyn trafodaeth fer, penderfynwyd bod yr Awdurdod yn y gorffennol wedi cynnig aelodaeth gorfforaethol i gampfeydd Cyngor Sir Penfro, ond oherwydd diffyg manteisio ar y cynllun, terfynwyd y trefniant. Ychwanegodd Swyddog bod CSP wedi gostwng cost aelodaeth i'r cyhoedd er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan ac i sicrhau hygyrchedd.

Awgrymodd Swyddog y byddai gostwng y ffioedd gwefru cerbydau trydan i'r staff sy'n defnyddio'r cyfleusterau ym meysydd parcio y Parc Cenedlaethol fel budd posibl i'r staff. Nododd y Prif Weithredwr yr awgrym a chytunodd i ymchwilio i'r mater. Cytunodd Cadeirydd yr Awdurdod y gallai hyn, os yn bosibl, fod yn fudd da i'r staff, a gofynnodd a allai'r Awdurdod gynnig parcio am ddim i'r staff yn y meysydd parcio hynny lle codir tâl am barcio yn y Parc Cenedlaethol. Ymatebodd y Prif Weithredwr

drwy ddweud bod yr Awdurdod wedi ymchwilio i hyn yn y gorffennol. Fodd bynnag sefydlwyd y byddai hyn yn cael ei gategoreiddio fel budd trethadwy i'r staff ac na fyddai felly mor fuddiol ag yr ystyriwyd yn wreiddiol. Mewn ymateb, holodd Swyddog a allai'r gostyngiad o 25% i'r staff oddi ar brisiau safleoedd a nwyddau perthnasol yr Awdurdod hefyd fod yn berthnasol i'r tocynnau tymor maes parcio yn hytrach na'u bod yn gwbl ddi-dâl. Roedd y Prif Weithredwr wedi nodi hyn a chytuno i ymchwilio i'r mater.

Holodd cynrychiolydd UNSAIN a fyddai cyflog byw yn cael ei dalu i aelodau perthnasol o staff fel rhan o'r adolygiad Cyflogau a Graddfeydd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi dechrau talu'r 'Cyflog Byw Gwirioneddol' wyth mlynedd yn ôl drwy dalu lwfans i'r unigolion ar raddfeydd oedd yn is na lefel y cyflog byw. Fodd bynnag, gwnaed penderfyniad ar y pryd i beidio â bwrw ymlaen â'r achrediad cysylltiedig. Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, eglurodd y Prif Weithredwr bod y lwfansau cyflog byw wedi achosi cywasgu rhai graddau, fodd bynnag roedd disgwyl i'r setliad cyflog diweddar a'r adolygiad Cyflogau a Graddfeydd oedd ar y gweill fynd i'r afael â hyn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r Achrediad 'Cyflog Byw Gwirioneddol' i Gyflogwyr, a chytunwyd y dylai'r Awdurdod fynd ar drywydd hyn. Cytunodd y Prif Weithredwr i gyflwyno papur ar hyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'w gymeradwyo.

Gofynnodd y Rheolwr AD a ddylid cynnwys cynnig hyfforddiant i ddysgu'r Gymraeg ar y rhestr o'r buddion i'r staff. Cytunodd y Prif Weithredwr y dylid cynnwys hyn yn ychwanegol at y diwrnod gwirfoddoli yr oedd gan bob aelod o staff hawl iddo.

**Nodwyd.**

**8. Unrhyw Eitemau Eraill o Fusnes**

a) <u>Diweddariad ar yr Adolygiad o Gyflogau a Graddfeydd</u>

Cadarnhaodd y Rheolwr AD bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu i'r Ymgynghorwyr West Midland Employers (WME) at eu sylw, ac yn ffodus, ychydig iawn o ymholiadau a dderbyniwyd ar y wybodaeth honno, felly roedd popeth yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ychwanegodd y Rheolwr AD bod staff enwebedig a chynrychiolwyr undebau llafur wedi cael eu hyfforddi gan WME ar 13 ffactor gwerthuso swydd y JNC er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y broses safoni a gwerthuso fel aelodau o'r panel. Dywedwyd bod WME wedi ymweld â phencadlys yr Awdurdod i helpu i roi gwybod iddynt am y gwaith y mae'r staff yn ei wneud ac i roi'r cyd-destun. Cadarnhawyd y disgwylir i'r gwerthusiad gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2023 a bod y broses apelio wedi'i drafftio i baratoi ar gyfer camau olaf y broses adolygu. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod cyfarfod o bob

aelod o staff wedi'i gynnal y diwrnod blaenorol a bod diweddariad ar y mater hwn wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod.

b) Diwrnod Llesiant Staff
Dywedodd y Rheolwr AD bod y Diwrnod Llesiant Staff a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi bod yn llwyddiant a bod adborth cadarnhaol wedi dod i law ynghyd ag amrywiaeth o awgrymiadau ar sut y gellid datblygu a gwella'r digwyddiad yn y dyfodol.
Dywedodd y swyddogion, yn dilyn y digwyddiad, bod sesiynau yoga a theithiau cerdded rheolaidd amser cinio wedi'u cynnig er lles y staff, a bod y staff wedi ymateb yn gadarnhaol.

Gofynnodd Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol i Log Gweithredu gael ei sefydlu ar gyfer y Fforwm Gweithwyr i sicrhau y cymerir camau ymlaen.

**Nodwyd.**